# Paratoi ceffylau rasio ar gyfer eu cyfrwyo a'r cylch arddangos

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ceffylau rasio ar gyfer eu cyfrwyo a'r cylch arddangos.

Mae'r safon hon yn cynnwys dethol a gosod y cyfrwyau a'r offer. Dylech allu paratoi'r ceffyl rasio ar gyfer y cylch arddangos.

Dylech fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. cynllunio'r weithdrefn gyfrwyo yn unol â rhaglen y ras a pharatoi ceffyl rasio ar gyfer ei gyfrwyo
3. dethol a gosod y cyfrwyau a'r offer priodol
4. adnabod a hysbysu ynghylch unrhyw ddiffygion neu niwed i'r cyfrwy a'r offer a chymryd camau priodol
5. trin ac atal y ceffyl mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, sy'n osgoi ymddygiad sy'n achosi pryder yn ymwneud â lles ac sy'n cynnal iechyd a diogelwch
6. paratoi'r ceffyl rasio ar gyfer y cylch arddangos yn unol â'r gofynion
7. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. gweithdrefnau'r cae ras a rheolau rasio
3. sut i gyfrwyo ceffylau a'r anawsterau y gellid dod ar eu traws
4. diben a sut i osod offer
5. pwysigrwydd defnyddio technegau trin ac atal a lleihau straen i'r ceffyl, a pheryglon i chi eich hun ac eraill
6. gofynion rheoliadol offer
7. sut i baratoi ceffylau ar gyfer y cylch arddangos
8. casglu cyfrwyau ac offer ar ôl pwyso allan
9. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Dewis a gosod yr offer canlynol:

- plât brest
- cengl brest
- ffrwynau dall
- cysgod llygaid
- lliain pwysau
- rhwyd
- strap tafod
- tondres
- band trwyn Awstralia
- gorchudd llygaid
- lliain rhif
- mortical Gwyddelig
- siami/sgrim/pad

LANEq311

Paratoi ceffylau rasio ar gyfer eu cyfrwyo a'r cylch arddangos

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq311 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; cyfrwy; arddangos |